| | |
|---|---|
| Am beth mae'r testun yn sôn? | Beth yw teitl y testun? |
| Pwy yw awdur y testun? | Pa fath o wybodaeth byddech chi'n disgwyl ei chael yn y testun? |
| Beth yw nodweddion y math yma o destun? | Pa ddarn sy'n ennyn eich diddordeb a pham? |
| Ble byddech chi'n dod o hyd i ystyr y geiriau technegol? | Beth sydd ar glawr y llyfr? Beth mae'n ei ddweud wrthych am gynnwys y llyfr? |

| | |
|---|---|
| Pa ran o'r llyfr sy'n eich helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth rydych chi ei hangen? | Pryd byddech chi'n defnyddio'r dudalen gynnwys? |
| Pryd byddech chi'n defnyddio'r mynegai? | Pa fath o berson fyddai'n hoffi'r llyfr yma yn eich barn chi? |
| Pryd byddai rhywun yn defnyddio llyfr fel hyn a pham? | Fyddech chi'n medru awgrymu penodau ychwanegol i'w cynnwys yn y llyfr? |
| Ydych chi'n meddwl bod awdur y llyfr yn arbenigwr ar y testun? Pam? | |

| | |
|---|---|
| Pa fath o destun yw hwn? Sut gwyddoch chi? | Fedrwch chi ddarganfod enghreifftiau o eiriau sy'n dangos trefn? |
| Beth yw pwrpas y lluniau? | Ydy'r ffordd mae e wedi'i osod yn helpu'r darllenydd? |
| Beth yw pwrpas yr is-deitlau? | Pam mae rhai geiriau wedi cael eu lliwddangos? |
| Pam mae rhai geiriau mewn *print italig*? | Oes un o'r tudalennau wedi'i gosod yn ddiddorol? Beth sy'n gwneud y dudalen yn ddiddorol? |

| | |
|---|---|
| Pam mae'r llyfr hwn yn cynnwys termau technegol? | Chwiliwch am air technegol yn y testun.<br>Darllenwch y frawddeg a cheisiwch ddyfalu ei ystyr o fewn y testun. |
| Beth yw pwrpas mynegai? | Oes esiampl o iaith berswadiol yma? |

| | |
|---|---|
| Pam mae'r awdur wedi ysgrifennu'r testun? | Ydych chi'n meddwl bod y lluniau, dyluniadau neu ddiagramau yn ddefnyddiol? Pam? Ceisiwch ateb yn llawn. |
| Pam mae'r awdur wedi dewis defnyddio'r ffurf yma i gyflwyno'r testun? | Allai'r wybodaeth fod wedi ei chyflwyno'n well? |
| Beth sy'n gwneud y testun yn un llwyddiannus? | Oes rhai o nodweddion y testun ar goll? Pam maent ar goll yn eich barn chi? |
| Fedrwch chi feddwl am destun tebyg i hwn? Beth yw'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt? | |